Cyllid & Thollau EF

# Hawlio trosglwyddiad o haen cyfradd sero sydd heb ei defnyddio

Atodlen IHT402

## Pryd i ddefnyddio'r ffurflen hon

Llenwch y ffurflen hon os:

- bu farw'r ymadawedig ar neu ar ôl 9 Hydref 2007
- bu farw'r priod neu'r partner sifil yn gyntaf
- pan fu farw'r priod neu'r partner sifil, ni ddefnyddiodd ei ystâd yr haen cyfradd sero cyfan a oedd ar gael iddi
- rydych am drosglwyddo'r swm nas defnyddiwyd o ystâd yr ymadawedig

**Llenwi'r ffurflen hon**

Bydd angen i chi ddarganfod pwy oedd ysgutor neu weinyddwr ystâd y priod neu'r partner sifil, gan y bydd angen i chi gael gwybodaeth ganddo i lenwi'r ffurflen hon.

Gwnewch ymholiadau llawn fel bod y ffigurau a rowch a'r datganiadau a wnewch yn gywir.

**Yr wybodaeth y bydd ei hangen arnoch**

Bydd angen i chi wybod y canlynol:

- pwy gafodd fuddiant o dan ewyllys neu ddiewyllysedd y priod neu'r partner sifil a'r hyn yr oedd hawl gan y buddiolwyr i'w gael
- os oedd unrhyw asedion, megis asedion mewn perchnogaeth ar y cyd neu asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth yn rhan o ystâd y priod neu'r partner sifil
- os oedd y priod neu'r partner sifil wedi gwneud unrhyw roddion neu drosglwyddiadau eraill yn ystod y 7 mlynedd cyn dyddiad ei farwolaeth a oedd yn agored i dreth ar adeg ei farwolaeth (gweler nodyn 6 ar dudalen 4)

Dylai ysgutor neu weinyddwr y priod neu'r partner sifil fedru eich helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth hon.

Dylech gael copïau o'r dogfennau a restrwyd a'u defnyddio ar y cyd ag unrhyw gofnodion sy'n bodoli mewn perthynas ag ystâd y priod neu'r partner sifil.

Os nad oes unrhyw gofnodion, dylech geisio dod o hyd i'r wybodaeth mewn perthynas ag ystâd y priod neu'r partner sifil gan eraill a fyddai, o bosib, yn gwybod y manylion, megis y cyfreithiwr a weithredodd ar ran yr ystâd, yr ysgutorion neu'r gweinyddwyr, aelodau eraill o'r teulu neu gyfeillion agos.

**Enw'r ymadawedig** (y person sydd bellach wedi marw)

**Dyddiad y farwolaeth** DD MM BBBB

**Cyfeirnod Treth Etifeddiant** (os yw'n hysbys)

**Dogfennau i'w hanfon gyda'r ffurflen hon**

Mae'n rhaid i chi anfon llungopïau o'r dogfennau canlynol gyda'r ffurflen hon:

- copi o'r grant cynrychiolaeth ('confirmation' yn yr Alban) i ystâd y priod neu'r partner sifil (os nad oes grant ar gael, darparwch gopi o'r dystysgrif marwolaeth – gweler y nodyn ar dudalen 4 ynghylch cael copïau o dystysgrifau)
- os gadawodd y priod neu'r partner sifil ewyllys, copi ohoni
- os cafodd Gweithred Amrywio neu ddogfen debyg arall ei llunio er mwyn newid pwy oedd yn etifeddu ystâd y priod neu'r partner sifil, copi ohonynt

**Dyddiad cau**

Rhaid i chi anfon y ffurflen hon atom cyn pen 24 mis ar ôl diwedd y mis pan fu farw'r ymadawedig. Er enghraifft, os bu farw'r priod neu'r partner sifil ar 15 Mai 2006, a bu farw'r ymadawedig ar 10 Hydref 2007, byddai angen i chi anfon y ffurflen hon atom erbyn 31 Hydref 2009.

## Os oes angen help arnoch

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/treth-etifeddiant neu, fel arall, gallwch ffonio Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEF ar 0300 200 1900.
Os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 123 1072.

## Manylion y priod neu'r partner sifil

Llenwch yr adran hon gyda manylion y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf.

**1 Enw'r priod neu'r partner sifil**

Teitl – nodwch Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl arall

Cyfenw neu enw teuluol

Enwau cyntaf

**2 Dyddiad y farwolaeth**

DD MM BBBB

**3 Cyfeiriad parhaol hysbys diwethaf**

Cod post

**4 Dyddiad y briodas neu bartneriaeth sifil** DD MM BBBB

**5 Lleoliad priodi neu ffurfio'r bartneriaeth sifil**

(gweler nodyn 7 ar dudalen 4)

## Manylion y priod neu'r partner sifil parhad

6 **A wnaeth y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf adael ewyllys?**

Do ☐ amgaewch gopi o'r ewyllys ac unrhyw godisiliau, offerynnau amrywio neu ymwadiadau

Naddo ☐

7 **Beth oedd gwerth net ystâd y priod neu'r partner sifil sy'n cael ei drosglwyddo o dan ei ewyllys neu ddiewyllysedd?** (Gweler nodyn 1 ar dudalen 4)

£

8 **A gafwyd grant cynrychiolaeth ('confirmation' yn yr Alban) ar gyfer ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf?**

Do ☐ amgaewch gopi o'r grant neu'r 'confirmation'

Naddo ☐ amgaewch gopi o'r dystysgrif marwolaeth

## Haen cyfradd sero y priod neu'r partner sifil

Llenwch yr adran hon i gyfrifo'r haen cyfradd sero sydd ar gael ar gyfer ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf.

9 **Yr haen cyfradd sero sydd mewn grym o ran y Dreth Etifeddiant, Treth Trosglwyddo Cyfalaf neu Doll Ystâd ar ddyddiad y farwolaeth** (gweler nodyn 2 ar dudalen 4) £

10 **Cyfanswm gwerth trethadwy'r rhoddion a throsglwyddiadau eraill o werth a wnaed yn ystod y 7 mlynedd cyn y dyddiad marwolaeth** (gweler nodiadau 3 a 6 ar dudalen 4) £

11 **Yr haen cyfradd sero sydd ar gael yn erbyn ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf** (blwch 9 llai blwch 10) £

12 **Gwerth unrhyw haen cyfradd sero preswyl (RNRB) a ddefnyddiwyd (ond yn berthnasol i farwolaethau a ddigwyddodd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017). Os yw gwerth wedi'i gynnwys ym mlwch 12, mae'n rhaid i chi gynnwys gwerth yr asedion sy'n cael eu trosglwyddo i'r disgynyddion uniongyrchol ym mlwch 13** (gweler nodyn 4 ar dudalen 4) £

## Ystâd y priod neu'r partner sifil

Llenwch yr adran hon gyda manylion ystâd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf. Nodwch werth yr asedion ar ddyddiad ei farwolaeth ar ôl didynnu'r eithriadau neu ryddhadau. Gall y gwerth hwn fod yn ddim.

13 **Cymynroddion ac asedion sy'n cael eu trosglwyddo o dan ewyllys neu ddiewyllysedd y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf. Peidiwch â chynnwys cymynroddion nac asedion a drosglwyddwyd i'r ymadawedig sydd bellach wedi marw** (gweler nodyn 3 ar dudalen 4). **Os yw gwerth wedi'i gynnwys ym mlwch 12, dylech gynnwys manylion y cartref (neu'r gyfran ynddo) sy'n cael ei drosglwyddo i'r disgynyddion uniongyrchol. Os yw gwerth wedi'i gynnwys ym mlwch 12, mae'n rhaid i chi gynnwys gwerth yr asedion sy'n cael eu trosglwyddo i'r disgynyddion uniongyrchol ym mlwch 13** (gweler nodyn 4 ar dudalen 4)

| Cymynrodd neu ased | Gwerth £ |
|---|---|
| | |
| Parhewch ar dudalen ar wahân os oes angen | £ 0 |

14 **Cyfran yr asedion a berchenogir ar y cyd gan y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf, ac eithrio asedion a drosglwyddwyd i'r ymadawedig sydd bellach wedi marw** (gweler nodyn 3 ar dudalen 4) £

15 **Asedion a ddelir mewn ymddiriedolaeth yr oedd gan y priod neu bartner sifil a fu farw gyntaf hawl i elwa ohonynt** (gweler nodyn 3 ar dudalen 4) £

16 **Rhoddion amodol a wnaed gan y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf** (gweler nodyn 3 ar dudalen 4) £

17 **Cyfanswm ystâd drethadwy y priod neu'r partner sifil** (blwch 13 + blwch 14 + blwch 15 + blwch 16) £ 0

## Haen cyfradd sero trosglwyddadwy

**18** **Haen cyfradd sero sydd ar gael i'w throsglwyddo** (blwch 11 plws blwch 12 llai blwch 17). Ni all y gwerth hwn byth fod yn fwy na'r band cyfradd sero sylfaenol a oedd ar waith ar ddyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf

£

**19** **Y ganran i'w defnyddio i gynyddu'r haen cyfradd sero sydd ar gael ar farwolaeth yr ymadawedig** (blwch 18 wedi'i rannu â blwch 9 a'i luosi â 100). Defnyddiwch 4 lle degol, peidiwch â thalgrynnu i fyny. Ni all y ganran hon byth fod yn fwy na 100%

. %

**20** **Haen cyfradd sero ar adeg marwolaeth yr ymadawedig (y person sydd bellach wedi marw)** - gweler IHT400, 'Cyfraddau a thablau'

£

**21** **Haen cyfradd sero trosglwyddadwy** (blwch 20 wedi'i luosi â chanran blwch 19) Dylech dalgrynnu i fyny i'r bunt agosaf (£)

£

### Enghraifft

Os yw'r ganran ym mlwch 19 yn 66.6666% ac mae'r haen cyfradd sero ym mlwch 20 yn £300,000, yna'r ffigur y dylid ei nodi ym mlwch 21 fyddai £300,000 x 66.6666% (neu £300,000 x 66.6666 ÷ 100) = £200,000 wedi'i dalgrynnu i fyny i'r bunt agosaf (£).

## Eithriadau a rhyddhadau

**22** **Rhestrwch unrhyw eithriadau neu ryddhadau, ar wahân i eithriad ar gyfer priod neu bartner sifil, sy'n cael eu hystyried wrth gyfrifo'r gwerthoedd ym mlychau 10, 13, 14, 15 neu 16** (gweler nodyn 5 ar dudalen 4)

| Rhif y blwch | Yr eithriadau neu'r rhyddhadau i'w hystyried - nodwch y swm a'r math (er enghraifft, blwch 15 eithriad elusen £3,000) |
|---|---|
| | |

## Os oedd y priod neu'r partner sifil yn preswylio yn yr Alban ar ddyddiad ei farwolaeth

Atebwch gwestiwn 23 dim ond lle bu'r priod neu'r partner sifil a fu farw gyntaf yn preswylio yn yr Alban.

**23** **A oedd gan unrhyw un hawl i'r gronfa legitim?**

Nac oedd ☐ Oedd ☐

Os ateboch 'Oedd', yna bydd cyfrifo'r ganran i'w defnyddio i gynyddu haen cyfradd sero'r ymadawedig yn dibynnu os bydd hawliad yn cael ei wneud ar gyfer legitim. Cewch ddefnyddio'r ffigur y cyfrifoch ym mlwch 21 am y tro. Byddwn yn trafod y ganran unwaith i chi anfon ffurflen IHT400 ar gyfer ystâd yr ymadawedig.

# Nodiadau

**Eich hawliad i drosglwyddo haen cyfradd sero nas defnyddiwyd mewn perthynas â Threth Etifeddiant**
Lle bo'r rhan fwyaf neu'r holl ystâd yn cael ei phasio i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi, mae'r asedion hynny, ar y cyfan, wedi'u heithrio rhag Treth Etifeddiaeth. Mae hyn yn golygu nad yw'r haen cyfradd sero yn cael ei defnyddio'n llawn neu'n rhannol ar adeg y farwolaeth gyntaf.

Mae modd trosglwyddo swm yr haen cyfradd sero nas defnyddiwyd i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi er mwyn cynyddu gwerth yr haen cyfradd sero sydd ar gael ar adeg ei farwolaeth.

Gan nad yw hyn yn digwydd yn awtomatig, mae'n rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon a gwneud hawliad i'w drosglwyddo. Mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad pan fydd yr ail briod neu bartner sifil yn marw.

**Sut mae'r trosglwyddiad yn gweithio**
Ar farwolaeth yr ymadawedig, cynyddir yr haen cyfradd sero sydd ar gael i'w ystâd gan ganran yr haen cyfradd sero nas defnyddiwyd pan fu farw ei briod neu bartner sifil.

Er enghraifft:
- bu farw priod neu bartner sifil a £250,000 oedd yr haen cyfradd sero
- gwnaeth adael cymynroddion a ddaeth i gyfanswm o £125,000 i'w blant a'r gweddill i'r priod neu'r partner sifil sy'n goroesi – byddai cymynroddion y plant yn defnyddio hanner yr haen cyfradd sero, gan adael yr hanner arall (50%) heb ei ddefnyddio
- yn ein henghraifft ni, ar farwolaeth yr ymadawedig, mae'r haen cyfradd sero yn £300,000, felly byddai ei haen cyfradd sero yn cael ei chynyddu 50% i £450,000
- os nad oedd ystâd yr ymadawedig dros £450,000, ni fyddai Treth Etifeddiant i'w thalu ar adeg ei farwolaeth – os oedd yn fwy na hyn, byddai angen talu Treth Etifeddiant ar y gwerth sydd dros y ffigur hwnnw

Gallwch gael copïau o'r grantiau cynrychiolaeth ('confirmation' yn yr Alban) ac ewyllysiau o'r canlynol:
- yng Nghymru a Lloegr, ewch i www.gov.uk/gwneud-cais-am-brofiant
- yn yr Alban, ewch i www.scotcourts.gov.uk
- yng Ngogledd Iwerddon, ewch i www.justice-ni.gov.uk/topics/courts-and-tribunals

Gallwch gael copïau o dystysgrifau marwolaeth, priodas a/neu bartneriaeth sifil o'r Swyddfa Gofrestru Gyffredinol:
- yng Nghymru a Lloegr, ewch i www.gov.uk/general-register-office
- yn yr Alban, ewch i www.nrscotland.gov.uk/registration
- yng Ngogledd Iwerddon, ewch i www.nidirect.gov.uk

## Ystâd y priod neu'r partner sifil – nodiadau i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon

1 Gallwch ddod o hyd i werth yr ystâd sy'n cael ei drosglwyddo o dan ewyllys neu ddiewyllysedd ar gopi o'r grant cynrychiolaeth (os cafwyd un) neu drwy adio holl asedion yr ystâd at ei gilydd a didynnu unrhyw rwymedigaethau – sylwer os yw'r grant yn dangos bod treth neu doll wedi ei thalu, ni fydd haen cyfradd sero ar gael i'w throsglwyddo.

2 Ar gyfer haen cyfradd sero mewn perthynas â Threth Etifeddiant sydd mewn grym ar ddyddiad marwolaeth y priod neu'r partner sifil, gweler 'Cyfraddau a thablau' yn y ffurflen IHT400. Os nad yw'n mynd yn ôl yn ddigon pell, mae'r cyfraddau ar gyfer blynyddoedd cynharach ar gael yn:
- www.gov.uk/inheritance-tax
- ffoniwch ein llinell gymorth ar 0300 200 1900 – os ydych yn ffonio o'r tu allan i'r DU, ffoniwch +44 300 200 190

3 Wrth lenwi blwch 10 a blychau 13 i 16, dylech gynnwys y gwerth a oedd yn agored i dreth. Hynny yw, y gwerth ar ôl didynnu'r eithriadau a'r rhyddhadau.

**Eithriad i'r priod lle bu farw'r priod cyntaf cyn 22 Mawrth 1972**
O dan amodau'r Doll Ystâd, nid oedd eithriad i'r priod. Ym mlwch 13, dylid cynnwys pob cymynrodd ac ased sy'n cael eu trosglwyddo o dan ewyllys neu ddiewyllysedd neu drwy oroesedd, waeth pwy yw'r derbynnydd na'r gwerth.

**Eithriad i'r priod lle bu farw'r priod cyntaf rhwng 22 Mawrth 1972 a 12 Tachwedd 1974**
Yn ystod y cyfnod hwn cyfyngwyd yr eithriad i'r priod i £15,000 fel y byddai pob cymynrodd ac ased a drosglwyddwyd o dan ewyllys neu ddiewyllysedd neu drwy oroesedd ac a basiwyd i'r ymadawedig a oedd dros £15,000 yn cael eu cynnwys ym mlwch 13.

**Eithriad i'r priod ar ôl 12 Tachwedd 1974**
Ar ôl y dyddiad hwnnw does dim cyfyngiad o ran eithriad i'r priod oni bai bod domisil yr ymadawedig yn y DU a lle nad oedd domisil y priod sy'n goroesi yn y DU, pan gaiff ei gyfyngu i £55,000. Ar ôl 6 Ebrill 2013, cyfyngir yr eithriad i'r haen cyfradd sero mewn perthynas â Threth Etifeddiant.

**Eithriad i'r priod 13 Tachwedd 1974 i 5 Ebrill 2025**
Ar ôl y dyddiad hwnnw does dim cyfyngiad o ran eithriad i'r priod oni bai yr oedd domisil yr ymadawedig yn y DU a lle nad oedd domisil y priod sy'n goroesi yn y DU, pan gaiff ei gyfyngu i £55,000.

Ar ôl 6 Ebrill 2013, cyfyngir yr eithriad i'r haen cyfradd sero mewn perthynas â Threth Etifeddiant.

**Eithriad i'r priod o 6 Ebrill 2025 ymlaen**
Does dim cyfyngiad o ran eithriad i'r priod oni bai yr oedd yr ymadawedig yn breswylydd tymor hir yn y DU, ac nad oedd y priod sy'n fyw yn breswylydd tymor hir yn y DU, pan y cyfyngir i'r haen cyfradd sero mewn perthynas â Threth Etifeddiant.

4 Os oedd ystâd yr ymadawedig yn cynnwys ei gartref, a bod hwnnw wedi ei adael i ddisgynnydd uniongyrchol, yna yr haen cyfradd sero preswyl (RNRB) sy'n ddyledus. Caiff ei chymhwyso i'r ystâd drethadwy ac mae'n cymryd blaenoriaeth dros yr haen cyfradd sero sylfaenol. Bydd swm yr RNRB a gymhwysir ym mlwch 12 yn is na gwerth y cartref (neu ran ohono) a drosglwyddwyd i'w ddisgynyddion uniongyrchol, ac uchafswm yr RNRB sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn y digwyddodd y farwolaeth. Dylid cynnwys gwerth llawn y cartref (neu ran ohono) sy'n cael ei drosglwyddo i'r disgynyddion uniongyrchol ym mlwch 13. I gael rhagor o wybodaeth am RNRB, ewch i www.gov.uk/guidance/inheritance-tax-manual/section-1-general-introduction

5 Rhestrwch unrhyw eithriadau neu ryddhadau (ar wahân i eithriad o ran y priod neu'r partner sifil) rydych wedi'u hystyried ym mlwch 22. Os nad ydych wedi gallu darganfod a oedd unrhyw eithriadau neu ryddhadau yn cael eu cymhwyso ai peidio pan fu farw'r priod neu'r partner sifil, gadewch y blwch hwn yn wag.
I gael rhagor o wybodaeth am yr eithriadau a'r rhyddhadau sydd ar waith o ran Treth Etifeddiant, gweler IHT400, 'Nodiadau'.
Os ydych yn cynnwys asedion a allai fod yn gymwys i gael eithriad neu ryddhad ar y ffurflen hon, ond nad ydych yn siŵr os byddai'r eithriad neu ryddhad yn gymwys, rhowch wybod i ni. Byddwn yn trafod â chi a allai'r eithriad neu'r rhyddhad wedi bod yn gymwys.

6 Ar gyfer marwolaethau rhwng 27 Gorffennaf 1981 a 17 Mawrth 1986, bydd angen i chi wybod os gwnaeth y priod neu'r partner sifil unrhyw roddion neu drosglwyddiadau eraill yn ystod y 10 mlynedd cyn dyddiad ei farwolaeth a oedd yn agored i dreth ar adeg ei farwolaeth.

7 Enw'r adeilad, yr eglwys neu'r swyddfa gofrestru a'r ardal.

## Eich hawliau a'ch rhwymedigaethau

Mae 'Siarter CThEF' yn egluro'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni, a'r hyn a ddisgwyliwn gennych chi. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/publications/hmrc-charter.cy

Mae gennym ystod o wasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd. Mae'r rhain yn cynnwys arweiniad mewn Braille, ar sain ac mewn print bras. Mae'r rhan fwyaf o'n ffurflenni hefyd ar gael mewn print bras. Cysylltwch â'n llinellau cymorth am ragor o wybodaeth.